

anthem.

TRYSORYDD ANTHEM – PECYN GWYBODAETH

YNGLŶN AG ANTHEM

Sefydlwyd Anthem. Cronfa Gerdd Cymru yn 2018 yn dilyn adroddiad gan Lywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd i gefnogi addysg cerddoriaeth yng Nghymru. Mae'r elusen bellach ar gam cyffrous yn ei datblygiad, ar ôl penodi Prif Weithredwr amser llawn yn ddiweddar, sy'n dwyn ynghyd grŵp o ymddiriedolwyr a thîm i weithio tuag at ei gweledigaeth a'i chenhadaeth:

Ein gweledigaeth yw Cymru lle y gall cerddoriaeth rymuso pob bywyd ifanc.

Credwn fod cerddoriaeth yn rym creadigol nerthol i bobl ifanc sy'n ysgogi hunanfyneiant, datblygiad personol a llesiant.

Bydd Anthem yn creu cyfleoedd ar draws genres a chymunedau, ac yn meithrin talent amrywiol i gymryd y camau nesaf tuag at yrfaedd cerddorol.

Mae Anthem yn gatalydd ar gyfer cerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru, ac yn ariannu gwaith a fydd yn creu newid, yn creu cysylltiadau i ehangu gwaith partneriaeth, ac yn galluogi arferion gorau i ffynnu.

Mae Anthem yn ceisio sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth – hygyrchedd, cynhwysiant, parch a gwahaniaeth – yn sail i holl feysydd gwaith y sefydliad a'i nod yw eu hyrwyddo yn ei bwrdd, ei harferion cyflogaeth ac ar draws ei gwaith. Mae Anthem yn llywio ei gwaith i fod yn gydweithredol, arloesol, cynhwysol, a chreadigol, ac i ysbrydoli.

Y RÔL

Mae Anthem yn dymuno penodi Ymddiriedolwr Gyfarwyddwr i fod yn Drysorydd i'r elusen. Rydym yn edrych am rywun sy'n rhannu ein hangerdd tuag at gerddoriaeth, pobl ifanc a Chymru, ac a all wneud cyfraniad sylweddol i elusen newydd a deinamig sy'n ymdrechu i greu effaith go iawn i bobl ifanc yng Nghymru.

Caiff Anthem ei rhedeg gan dîm bach o staff ac mae Cyfarwyddwyr Anthem yn chwarae rôl weithgar o ran datblygiad strategol, ymdrechion i godi arian a rheolaeth ariannol y cwmni, gan drafod gyda rhanddeiliaid allweddol a chynorthwyo'r Prif Weithredwr yn rheolaidd. Mae'r Bwrdd yn gweithredu nifer o is-bwyllgorau gan gynnwys rhai ar gyfer cyllid a chodi arian.

- Swydd ddi-gyflog yw rôl Trysorydd Anthem.
- Caiff costau teithio, mynediad a threuliau parod rhesymol eraill eu had-dalu am fod yn bresennol mewn digwyddiadau a chyfarfodydd swyddogol ar ran Anthem.
- Mae Bwrdd Anthem yn cwrdd yn fisol ar hyn o bryd.
- Mae Is-bwyllgor Cyllid Anthem yn cwrdd yn fisol.
- Cyfnod y swydd yw tair blynedd i gychwyn, gyda mwyafswm o ddau dymor tair blynedd.

SUT I WNEUD CAIS

Mae Anthem yn sefydliad cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob unigolyn sydd â diddordeb.

I wneud cais am y rôl, anfonwch gopi o'ch CV a llythyr eglurhaol i David Alston, Cadeirydd Anthem - chair@anthem.wales - yn esbonio sut rydych yn cyflawni'r meini prawf dethol a pham eich bod yn dymuno ymuno â thîm Anthem.

Dyddiad cau derbyn ceisiadau yw 31ain Mai 2021.

Caiff dyddiadau'r cyfweiliadau i'r ymgeiswyr ar y rhestr fer eu cytuno fesul ymgeisydd.

Os oes gennych unrhyw ofynion arbennig eraill i'ch galluogi i ymgeisio am y rôl hon, rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost i rhian.hutchings@anthem.wales

DISGRIFIAD O RÔL TRYSORYDD ANTHEM

Rôl Trysorydd Anthem yw monitro gweinyddiaeth ariannol yr elusen ac adrodd i fwrdd yr ymddiriedolwyr ar gyfnodau rheolaidd ar gyflwr ei hiechyd ariannol, yn unol ag arferion gorau, a chan gydymffurfio â'r ddogfen lywodraethu a gofynion cyfreithiol.

CYFRIFOLDEBAU A DYLETYSWYDDAU

- Goruchwylio a chyflwyno cyllidebau, cyfrifon rheoli mewnol a datganiadau ariannol blynyddol i fwrdd yr ymddiriedolwyr yng Nghyfarfodydd y Bwrdd ac i aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol;
- Arwain yn nyletswydd y bwrdd i sicrhau bod cofnodion cyfrifo priodol yn cael eu cadw, a bod adnoddau ariannol yn cael eu rheoli, buddsoddi a'u gwario'n ddarbodus yn briodol, yn unol â gofynion llywodraethu da, cyfreithiol a rheoleiddiol;
- Arwain ar ddatblygu a gweithredu polisiau cronfeydd ariannol, rheoli costau a buddsoddi, yn arbennig mewn perthynas â Gwaddol Anthem;
- Trafod gyda'r Prif Weithredwr a'r tîm cyfrifon allanol er mwyn monitro rheolaeth ariannol y sefydliad;
- Cadeirio'r is-bwyllgor cyllid yn unol â'r rheolau sefydlog a'r cylch gorchwyl, ac adrodd yn ôl i fwrdd yr ymddiriedolwyr;
- Monitro a chynghori ar hyfywdra ariannol yr elusen;
- Goruchwylio gweithrediad a monitro rheolaethau ariannol penodol ac ymlyniad wrth systemau;
- Cynghori ar oblygiadau ariannol cynllun strategol yr elusen;
- Goruchwylio proses rheoli risg ariannol yr elusen;
- Bod yn gyd-lofnodydd ar gyfrifon banc yr elusen a cheisiadau pwysig i gyllidwyr;
- Trafod ar lefel bwrdd ag archwilwyr allanol mewn perthynas â'r archwiliad blynyddol.

CYMWYSTERAU A PHROFIAD HANFODOL

- Dylai fod gan yr Ymddiriedolwr Gyfarwyddwr brofiad blaenorol ar lefel uwch ym maes Rheoli Ariannol a Buddsoddiadau yn y trydydd sector neu'r sector preifat, gyda chymwystrau perthnasol ac aelodaeth o gyrff proffesiynol priodol ACA, ACCA, CIMA neu CISI.
- Gwybodaeth a phrofiad o brosesau ariannol, gan gynnwys cyfrifon rheoli, cynllunio buddsoddiadau a rheoli risg ariannol.
- Sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu rhagorol, gan weithio gydag aelodau eraill o'r Bwrdd, rhanddeiliaid, partneriaid cyllido a chydweithwyr yn y sefydliad.
- Dealltwriaeth o ddyletswyddau cyfreithiol, cyfrifoldebau ac atebolrwydd bod yn gyfarwyddwr cwmni ac ymddiriedolwr elusen.

CYMWYSTERAU A PHROFIAD DYMUNOL

- Cymwysterau neu brofiad proffesiynol a fydd o fudd i'r Bwrdd, gan gynnwys yn amrywiol – gwybodaeth am greu cerddoriaeth, addysg cerddoriaeth, addysg yng Nghymru, gweithio gyda phobl ifanc, codi arian, rhoddion gan unigolion, buddsoddiadau, rhoddion mewn ewyllys, a fframweithiau cyfreithiol i weithrediad elusennau.
- Mae Anthem yn croesawu ceisiadau gan bobl sy'n dysgu'r Gymraeg neu sy'n rhugl yn y Gymraeg.

Cewch wybod mwy am rôl trysorydd mygedol mewn elusen drwy Fforwm y Trysoryddion Mygedol: <http://www.honorarytreasurers.org.uk/Governance.html>